OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 No. 725

# Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020

## RHAN 2

### Cau busnesau a mangreoedd

**Busnesau sy’n ffurfio rhan o fusnes mwy**

**9.** Pan—

(a) bo’n ofynnol i berson sy’n gyfrifol am gynnal busnes (“busnes A”), yn rhinwedd rheoliad 6(1), (7(1) neu 8(1), beidio â chynnal busnes A, a

(b) bo busnes A yn ffurfio rhan o fusnes mwy (“busnes B”),

cydymffurfir â’r gofyniad yn y rheoliad 6(1), 7(1) neu y 8(1) os yw’r person sy’n gyfrifol am gynnal busnes B yn peidio â chynnal busnes A.